Tyfu'r Lledrith: Cynllun Gwaith Tair Blynedd 2026-2030

Cynllun gwaith cyntaf Coram PACEY Cymru ar gyfer Strategaeth Genedlaethol Gwarchod Plant yng Nghymru 2026-2035

Ein diben ar gyfer Tachwedd 2026 - Mawrth 2030

Mae'r cynllun gweithredu hwn yn troi uchelgeisiau Tyfu'r Lledrith: Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gwarchod Plant yng Nghymru 2026-2035 yn rhaglen â ffocws am y tair blynedd gyntaf. Mae'n nodi'r hyn y bydd Coram PACEY Cymru yn ei gyflawni gyda gwarchodwyr plant, plant, teuluoedd, Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a phartneriaid i sefydlogi'r sector, cryfhau ansawdd a chynhwysiant a chreu'r amodau ar gyfer twf cynaliadwy. Bwriedir iddo fod yn uchelgeisiol, tryloyw ac addasadwy: byddwn yn cyhoeddi'r cynnydd a wneir, yn dysgu o dystiolaeth a phrofiad byw, ac yn mireinio gweithgarwch wrth i'r cyd-destun ariannu a pholisi ddatblygu. Yn unol â'n strategaeth, bydd y gwaith cyflawni'n **canolbwyntio ar y plentyn, yn ymwybodol o'r system, wedi'i llywio gan dystiolaeth ac yn ymarferol**.

Sut olwg fydd ar lwyddiant erbyn mis Mawrth 2030?

- **Plant:** mae diogelwch, lles, cynhwysiant a lleisiau plant wrth wraidd ein gwaith, ac mae tystiolaeth glir o sut mae eu profiadau a'u barn yn llywio ein blaenoriaethau a'n penderfyniadau.
- **Teuluoedd:** gall teuluoedd ddeall gwarchod plant yn well, gallant lywio cymorth a chyfleoedd ariannu'n haws, ac mae ganddynt fwy o hyder a dewis.
- **Gwarchodwyr plant:** mae gwarchodwyr plant yn fwy amlwg ac yn cael eu gwerthfawrogi'n fwy fel gweithwyr proffesiynol, yn fwy cysylltiedig ac wedi'u harfogi i ddatblygu busnesau cynaliadwy o ansawdd uchel.
- **Cymunedau:** mae gwarchodwyr plant yn cael eu cynnwys mewn partneriaethau a chynllunio lleol fel mater o drefn, ac mae darpariaeth yn adlewyrchu iaith, diwylliant ac angen lleol yn well.

Rhaglen gyflawni dair blynedd: Nodau

1. Nod: Plant

Mae plant yn ddiogel ac yn iach, yn teimlo eu bod yn cael eu clywed a'u cynnwys, gyda'r gofal, y perthnasoedd a'r cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i chwarae, dysgu, perthyn a chyrraedd eu potensial llawn.

Ymrwymiad strategol	Camau allweddol		
	Blwyddyn 1 Tach 26-Maw 28	**Blwyddyn 2** Ebr 28-Maw 29	**Blwyddyn 3** Ebr 29-Maw 30
1.1 Cryfhau darpariaeth gwarchod plant Cefnogi gwarchodwyr plant gyda'r wybodaeth, y sgiliau, yr hyder a'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i ddarparu profiadau meithringar, cynhwysol ac o ansawdd uchel i blant.	Cynnal Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddiant a defnyddio'r canfyddiadau i lywio cyfeiriad. Cynnal adolygiad o anghenion dysgu ac adnoddau gwarchodwyr plant o ran ymarfer sy'n meithrin, sy'n ddiogel ac sy'n gynhwysol. Cyd-ddylunio adnoddau dwyieithog newydd ynghylch chwarae, lles, perthnasau cadarnhaol a datblygiad holistaidd. Casglu adborth ar ba mor ddefnyddiol yw'r adnoddau presennol a'r hyder ynddynt er mwyn llywio gwelliannau.	Cynnal Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddiant a defnyddio'r canfyddiadau i lywio cyfeiriad. Adolygu adnoddau a hyfforddiant presennol gan nodi'r bylchau. Datblygu adnoddau/hyfforddiant newydd fel y'u nodir. Casglu enghreifftiau o sut mae gwarchodwyr plant yn cymhwyso dysgu mewn ymarfer. Adolygu cyfranogiad ac adborth i wella hygyrchedd a pherthnasedd.	Cynnal Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddiant a defnyddio'r canfyddiadau i lywio cyfeiriad. Gwerthuso'r defnydd o adnoddau, cyfranogiad o ran dysgu a'r newidiadau a adroddwyd mewn ymarfer. Diweddaru adnoddau a hyfforddiant gan ddefnyddio adborth ac anghenion dysgu sy'n dod i'r amlwg. Ymgorffori adnoddau yn ein cynnig cymorth parhaus. Cyhoeddi'r dysgu a nodi blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod cyflawni nesaf.
1.2 Hyrwyddo lleisiau a hawliau plant	Cynnal adolygiad o fframweithiau ac adnoddau presennol ar hawliau plant a chyfranogiad, gan gynnwys y	Ehangu cymorth i warchodwyr plant i gymhwyso fframweithiau ac	Adolygu ein defnydd o fframweithiau presennol yn erbyn eu hegwyddorion cyfranogi, gan

Ymrwymiad strategol	Camau allweddol		
	Blwyddyn 1 Tach 26-Maw 28	**Blwyddyn 2** Ebr 28-Maw 29	**Blwyddyn 3** Ebr 29-Maw 30
Sicrhau bod profiadau, lleisiau a hawliau plant yn llywio arferion, polisi a'r broses o wneud penderfyniadau.	Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol a hyrwyddwyd gan Plant yng Nghymru, a nodi'r rheiny sydd fwyaf addas ar gyfer gwarchod plant. Cyfeirio gwarchodwyr plant at ganllawiau a dysgu dwyieithog presennol ar wrando ar blant, gan gynnwys plant ifanc a'r rheiny sy'n cyfathrebu'n ddieiriau. Cefnogi gwarchodwyr plant i brofi dulliau gweithredu sy'n berthnasol i oedran.	adnoddau gwrando penodol presennol mewn ymarfer bob dydd. Rhannu enghreifftiau ymarferol a dysgu cyfoedion o gydnabod ac ymateb i farn a dewisiadau plant. Defnyddio profiadau plant i lywio ein hadnoddau, ymatebion i ymgyngoriadau a chynllunio. Cyhoeddi cyfrif hygyrch o'r hyn a glywsom a'r ffordd a ymatebom, a chefnogi gwarchodwyr plant i roi adborth i blant mewn ffyrdd y maen nhw'n eu deall.	dynnu ar adborth gwarchodwyr plant a thystiolaeth o ddylanwad plant. Ymgorffori hawliau plant a gwiriadau cyfranogi, wedi'u llywio gan ein canllawiau presennol, yn ein gwaith cynllunio a pholisi. Cyhoeddi enghreifftiau sy'n dangos sut mae barn plant wedi llywio ymarfer, cymorth a'n penderfyniadau. Adnewyddu cyfeiriadau at adnoddau presennol a chytuno ar flaenoriaethau'r cyfnod nesaf.
1.3 Dylanwadu ar bolisi a chyllid Defnyddio llais a phrofiadau gwarchodwyr plant a theuluoedd i ddylanwadu ar bolisïau, cyllid a gwasanaethau fel eu bod yn adlewyrchu anghenion unigol plant a rôl hanfodol gwarchodwyr plant yn well.	Casglu tystiolaeth gan warchodwyr plant a theuluoedd o rwystrau i gyfleoedd ariannu a dilyniant gofal. Datblygu safbwyntiau polisi sydd â diogelwch, hawliau ac anghenion unigol plant wrth eu gwraidd. Paratoi crynodebau tystiolaeth ac ymateb i ymgyngoriadau perthnasol.	Diweddaru tystiolaeth ar sut y mae cyllid a pholisi yn effeithio ar brofiadau plant. Rhannu argymhellion gyda'r llywodraeth a phartneriaid perthnasol. Cefnogi gwarchodwyr plant a theuluoedd i gyfrannu tystiolaeth yn uniongyrchol.	Adolygu cynnydd yn erbyn ein hargymhellion polisi a chyllido. Cyhoeddi tystiolaeth o'n cyfraniad, a'i wahaniaethu o benderfyniadau allanol. Adnewyddu argymhellion lle mae rhwystrau'n parhau.

Ymrwymiad strategol	Camau allweddol		
	Blwyddyn 1 Tach 26-Maw 28	**Blwyddyn 2** Ebr 28-Maw 29	**Blwyddyn 3** Ebr 29-Maw 30
	Cofnodi'r argymhellion sy'n cael eu cyflwyno a'r ymatebion sy'n dod i law.	Olrhain ymatebion, mynd ar drywydd argymhellion.	Defnyddio profiadau plant a theuluoedd i bennu blaenoriaethau dylanwadu ar gyfer y cyfnod nesaf.
1.4 Gwella mynediad a chynhwysiant Gweithio gyda phartneriaid i gael gwared ar rwystrau fel y gall pob plentyn a theulu gael mynediad at ofal plant cynhwysol o ansawdd uchel sy'n diwallu eu hanghenion, lle bynnag y maent yn byw a beth bynnag fo'u hamgylchiadau.	Casglu tystiolaeth o rwystrau i warchod plant cynhwysol a chymorth amserol. Mapio'r llwybrau cyngor ac atgyfeirio sydd ar gael gyda phartneriaid perthnasol.	Cynnull trafodaethau partner ar rwystrau i fynediad sy'n ailadrodd. Rhannu argymhellion ymarferol gyda'r gwasanaethau sy'n gyfrifol am rwystrau heb eu datrys.	Rhannu canfyddiadau ar fynediad a chynhwysiant. Ymgorffori canllawiau effeithiol yn ein cynnig cymorth. Diweddaru gwybodaeth ac argymhellion atgyfeirio gyda phartneriaid. Nodi unrhyw fylchau sy'n weddill a phennu cost blaenoriaethau ar gyfer cymorth yn y dyfodol.
1.5 Cysylltu cymunedau Cefnogi gwarchodwyr plant i gysylltu, rhannu dysgu, cydweithio a chryfhau rhwydweithiau lleol fel bod plant yn elwa o gefnogaeth fwy cydgysylltiedig, ymatebol a chynhwysol ar draws eu cymuned.	Nodi bylchau mewn cysylltiadau sy'n cefnogi pontio plant a pharhad eu gofal. Cynnal adolygiad o dempledi rhannu gwybodaeth a phontio ymarferol presennol. Hwyluso fforwm gwarchodwyr plant i drafod anghenion cymorth plant.	Cefnogi gwarchodwyr plant i ddefnyddio templedi rhannu gwybodaeth a phontio sydd eisoes yn bodoli ac a nodwyd ym Mlwyddyn 1. Defnyddio'r fforwm gwarchodwyr plant i rannu'r dysgu ar anghenion cymorth plant, pontio a chysylltiadau lleol.	Cynnal adolygiad o'r ffordd y mae defnyddio'r offer a'r dysgu o fforymau presennol wedi cefnogi cysylltiadau lleol gwarchodwyr plant a phontio plant. Rhannu enghreifftiau ymarferol drwy'r fforwm gwarchodwyr plant a pharhau i gyfeirio at adnoddau effeithiol sydd eisoes yn bodoli.

Ymrwymiad strategol	Camau allweddol		
	Blwyddyn 1 Tach 26-Maw 28	**Blwyddyn 2** Ebr 28-Maw 29	**Blwyddyn 3** Ebr 29-Maw 30
	Pennu cwmpas a datblygu cynllun mentora i warchodwyr plant yng Nghymru yn amodol ar gyllid.	Treialu'r cynllun mentora, yn amodol ar sicrhau cyllid, gyda ffocws ar gydweithio a chymorth ymatebol i blant. Casglu adborth ar yr offer, y fforwm ac unrhyw gynllun peilot mentora i nodi gwelliannau ymarferol a bylchau sy'n weddill.	Gwerthuso'r cynllun peilot mentora lle mae wedi'i gyflwyno a mireinio'r cynllun; parhau i gyflwyno'r cynllun neu ehangu'r cynllun, yn amodol ar gyllid. Defnyddio adborth a thystiolaeth i gytuno ar flaenoriaethau cyfnod nesaf y fforwm, mentora a chymorth mwy cydlynol i blant.
1.6 Hyrwyddo gwerth ac effaith gwarchod plant ar blant Codi ymwybyddiaeth o rôl unigryw gwarchodwyr plant wrth gefnogi dysgu, lles a datblygiad plant, gan gryfhau cydnabyddiaeth o'u cyfraniad at deuluoedd, cymunedau a'r system gofal plant ehangach.	Cynnal adolygiad o'r dystiolaeth sydd ar gael o gyfraniad gwarchod plant at brofiadau plant. Datblygu dull moesegol o gasglu straeon plant a theuluoedd. Cynhyrchu astudiaethau achos dwyieithog ar chwarae, perthnasau, dysgu a lles. Rhannu tystiolaeth drwy ein dulliau cyfathrebu a chrynodebau proffesiynol.	Ehangu'r gwaith o gasglu astudiaethau achos i adlewyrchu profiadau gwarchod plant amrywiol. Cynhyrchu crynodebau tystiolaeth â thema ar gyfer partneriaid a'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau. Defnyddio straeon mewn gohebiaeth gydlynol am brofiadau plant. Cofnodi cyrhaeddiad ac adborth.	Cyhoeddi cyfuniad o dystiolaeth ar gyfraniad gwarchod plant at blant. Arddangos safbwyntiau plant a theuluoedd drwy ddeunyddiau dwyieithog hygyrch. Cynnal adolygiad o ba mor effeithiol y mae ein gohebiaeth yn cyfleu'r dystiolaeth. Nodi bylchau mewn tystiolaeth a blaenoriaethau ar gyfer ymchwil ac eiriolaeth yn y dyfodol.

2. Nod: Teuluoedd

Gall teuluoedd gael mynediad at ofal plant dibynadwy, hyblyg a chynhwysol sy'n diwallu eu hanghenion, yn cefnogi lles, yn cynnig dewis gwirioneddol ac yn eu helpu i deimlo'n hyderus, yn wybodus ac yn gysylltiedig.

Ymrwymiad strategol	**Camau allweddol**		
	Blwyddyn 1 Tach 26-Maw 28	**Blwyddyn 2** Ebr 28-Maw 29	**Blwyddyn 3** Ebr 29-Maw 30
2.1 Gwneud gwarchod plant yn weladwy ac yn ddealladwy Cyfathrebu'n glir â theuluoedd ynglŷn â beth mae gwarchodwyr plant yn ei gynnig a manteision gwarchod plant, gan herio camsyniadau a chodi proffil gwarchodwyr plant fel dewis o ansawdd uchel.	Cyd-ddylunio a phrofi negeseuon dwyieithog clir at sylw teuluoedd a phennu cwmpas sianeli ar gyfer lledaenu'r negeseuon. Adolygu a chyhoeddi adnoddau yn esbonio'r hyn y mae gwarchod plant yn ei gynnig a sut i ddod o hyd i warchodwyr plant. Cynnig deunyddiau i bartneriaid dibynadwy sy'n darparu gwybodaeth i deuluoedd ac i bartneriaid cymunedol. Datblygu ymgyrch ymwybyddiaeth gydlynol i dargedu rhieni/gofalwyr gan ddefnyddio lleisiau lleol dibynadwy.	Ehangu gohebiaeth at sylw teuluoedd gan ddefnyddio sianeli a nodwyd drwy adborth. Rhannu straeon rhieni a gwarchodwyr plant sy'n dangos gwahanol anghenion gofal plant. Cynnal adolygiad o gyrhaeddiad a'r effaith ar ddealltwriaeth, a gwella deunyddiau yn unol â hynny. Lansio ymgyrch ymwybyddiaeth gydlynol i dargedu rhieni/gofalwyr gan ddefnyddio lleisiau lleol dibynadwy.	Gwerthuso sianeli cyfathrebu a rhannu'r canfyddiadau. Ymgorffori gwybodaeth ddwyieithog effeithiol yn ein gohebiaeth barhaus. Ystyried effaith yr ymgyrch flaenorol. Adnewyddu negeseuon a blaenoriaethau lledaenu ar gyfer y cyfnod cyflawni nesaf.
2.2 Cryfhau dewis ac argaeledd	Defnyddio canfyddiadau Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant i ddadansoddi bylchau mewn dewis	Gweithredu rhaglen cyn cofrestru lle mae cyllid wedi'i sicrhau.	Gwerthuso rhaglen gymorth recriwtio a chadw.

Ymrwymiad strategol	Camau allweddol		
	Blwyddyn 1 Tach 26-Maw 28	**Blwyddyn 2** Ebr 28-Maw 29	**Blwyddyn 3** Ebr 29-Maw 30
Cefnogi datblygiad a chynaliadwyedd gweithlu gwarchod plant amrywiol fel bod gan deuluoedd ddewisiadau lleol gwirioneddol sy'n adlewyrchu eu hanghenion.	ac argaeledd gwarchodwyr plant lleol a adroddwyd gan rieni. Defnyddio ymchwil, tystiolaeth a gwybodaeth i gynnal adolygiad o rwystrau at recriwtio a chadw sy'n effeithio ar y bylchau hynny. Dylunio rhaglen genedlaethol o gymorth cyn cofrestru a dewisiadau cost cyflawni. Ceisio cyllid a chyfranogiad gan bartneriaid. Parhau i lobïo dros gynnwys gwarchodwyr plant ym mhob rhaglen gofal plant ac addysg y blynyddoedd cynnar a ariennir er mwyn cefnogi dewis rhieni/gofalwyr.	Targedu ein gwybodaeth recriwtio tuag at fylchau lleol a nodwyd. Cynnig cymorth cynnar i fusnesau a chymorth cadw i warchodwyr plant sy'n cymryd rhan. Olrhain ymholiadau, cyflawni, siwrneiau cofrestru a'r rhwystrau a adroddir. Coladu gwybodaeth am gynnwys gwarchodwyr plant ym mhob rhaglen gofal plant ac addysg y blynyddoedd cynnar a ariennir gan ddarparu astudiaethau achos â ffocws i arddangos arfer da ac angen.	Datblygu cynnig wedi'i gostio ar gyfer cymorth cyn cofrestru a blwyddyn gyntaf parhaus. Adolygu'r gwaith o goladu gwybodaeth am gynnwys gwarchodwyr plant ym mhob rhaglen gofal plant ac addysg y blynyddoedd cynnar a ariennir gan ddarparu astudiaethau achos â ffocws i arddangos arfer da ac angen.
2.3 Cynnwys lleisiau teuluoedd yn ein gwaith Gwrando ar deuluoedd a defnyddio eu profiadau i lunio ein gwasanaethau, ein hymgyrchoedd, ein partneriaethau a'n dylanwad ar bolisïau.	Sefydlu llwybrau dwyieithog hygyrch i deuluoedd rannu profiadau. Cytuno ar drefniadau cydsynio, preifatrwydd ac adborth. Casglu barn teuluoedd ar ddefnyddio gwarchodwyr plant, gan	Darparu cyfleoedd rheolaidd i deuluoedd roi adborth drwy arolygon a thrafodaethau. Profi adnoddau a negeseuon ymgyrch a gynigir gyda theuluoedd. Defnyddio mewnwelediadau dienw yn ein gwaith polisi a phartneriaeth.	Cynnal adolygiad o ba mor hygyrch a defnyddiol yw llwybrau ymgysylltu â theuluoedd. Cyhoeddi astudiaethau achos ar brofiadau teuluoedd. Cytuno ar flaenoriaethu gwella ac ymgysylltu ar gyfer y cyfnod nesaf.

Ymrwymiad strategol	Camau allweddol		
	Blwyddyn 1 Tach 26-Maw 28	**Blwyddyn 2** Ebr 28-Maw 29	**Blwyddyn 3** Ebr 29-Maw 30
	gynnwys ar ddewisiadau, gwybodaeth a chymorth gofal plant. Cofnodi sut y mae canfyddiadau'n llywio ein gwasanaethau, ymgyrchoedd a blaenoriaethau polisi.	Rhannu crynodeb blynyddol yn egluro'r hyn a newidiodd yn dilyn adborth.	
2.4 Gwneud cyllid a chefnogaeth yn haws i deuluoedd eu defnyddio Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid i symleiddio gwybodaeth, cael gwared ar rwystrau a helpu teuluoedd i ddeall, cael mynediad at ac elwa o'r cyllid a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt.	Nodi gwybodaeth ddryslyd a rhwystrau llywio sy'n ailadrodd. Cefnogi Llywodraeth Cymru a phartneriaid i gynhyrchu a phrofi deunyddiau cyfeirio dwyieithog wrth iddynt gael eu datblygu. Rhannu argymhellion gyda phartneriaid perthnasol. Cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu systemau newydd er mwyn helpu i gyflawni'r cynnig gofal plant newydd ac ehangu'r cynnig, gan dynnu sylw'r llywodraeth a phartneriaid at unrhyw heriau/rhwystrau y mae teuluoedd yn eu hwynebu.	Cefnogi Llywodraeth Cymru a phartneriaid i fireinio gwybodaeth ddwyieithog am gyllid a chyfeirio. Rhannu a chyfeirio at wybodaeth awdurdodol drwy ein gohebiaeth at sylw teuluoedd. Parhau i gefnogi'r gwaith o roi'r cynnig gofal plant ar waith gan dynnu sylw'r llywodraeth a phartneriaid at unrhyw heriau/rhwystrau a wynebir gan deuluoedd.	Cefnogi Llywodraeth Cymru a phartneriaid i adolygu a diweddaru eu deunyddiau dwyieithog, gan dynnu ar rwystrau a adroddwyd gan deuluoedd. Parhau i gyfeirio at wybodaeth awdurdodol bresennol drwy ein gohebiaeth a rhannu'r dysgu am ddulliau sy'n helpu teuluoedd i lywio cymorth. Parhau i gefnogi'r gwaith o roi'r cynnig gofal plant ar waith gan dynnu sylw'r llywodraeth a phartneriaid at unrhyw heriau/rhwystrau a wynebir gan deuluoedd. Adolygu ymatebion i'n hargymhellion a chytuno ar

Ymrwymiad strategol	Camau allweddol		
	Blwyddyn 1 Tach 26-Maw 28	**Blwyddyn 2** Ebr 28-Maw 29	**Blwyddyn 3** Ebr 29-Maw 30
			flaenoriaethau'r cyfnod nesaf o ran ein cyfraniad at wybodaeth gliriach a mynediad haws.
2.5 Hyrwyddo gofal plant cynhwysol sy'n ymatebol i ddiwylliant Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau y gall teuluoedd gael mynediad at ofal plant sy'n adlewyrchu eu hiaith, eu diwylliant, eu hunaniaeth, eu hanghenion a'u hamgylchiadau.	Gwahodd teuluoedd a phartneriaid cymunedol i nodi rhwystrau i ofal plant sy'n ymatebol yn ddiwylliannol a choladu'r canfyddiadau. Cynnal adolygiad o'n deunyddiau a chynnwys sydd wedi'u hanelu at deuluoedd er mwyn sicrhau y defnyddir iaith gynhwysol ac y ceir cynrychiolaeth. Cyd-ddylunio canllawiau dwyieithog ynglŷn â sgyrsiau parchus am ddewisiadau teuluoedd.	Profi canllawiau gyda theuluoedd a gwarchodwyr plant i'w mireinio. Rhannu enghreifftiau ymarferol o ofal sy'n ymatebol yn ddiwylliannol ac sy'n ymwybodol o ran iaith. Cynnull trafodaethau â phartneriaid yn y gymuned ynghylch rhwystrau mynediad. Defnyddio adborth i wella ein gwybodaeth, cymorth ac argymhellion.	Adolygu adborth teuluoedd ynghylch pa mor berthnasol a chynhwysol yw ein cymorth. Ymgorffori canllawiau effeithiol mewn adnoddau at sylw teuluoedd a pharhau i'w rhaeadru. Cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer ymgysylltiad sy'n ymatebol yn ddiwylliannol.

3. Nod: Gwarchodwyr plant

Mae gwarchodwyr plant yn cael eu gwerthfawrogi, eu cydnabod a'u cefnogi fel gweithwyr proffesiynol medrus, sydd â'r hyder, y cyfleoedd a'r adnoddau i dyfu, arloesi ac adeiladu busnesau cynaliadwy a ffyniannus.

Ymrwymiad strategol	**Camau allweddol**		
	Blwyddyn 1 Tach 26-Maw 28	**Blwyddyn 2** Ebr 28-Maw 29	**Blwyddyn 3** Ebr 29-Maw 30
3.1 Hyrwyddo gwarchodwyr plant fel gweithwyr proffesiynol Codi proffil gwarchodwyr plant fel gweithwyr proffesiynol blynyddoedd cynnar a gofal plant dibynadwy, gan sicrhau bod eu llais, eu harbenigedd a'u heffaith yn cael eu cydnabod mewn polisi, ymarfer a systemau lleol.	Cyd-ddylunio negeseuon dwyieithog clir gyda gwarchodwyr plant gan egluro eu rôl broffesiynol, eu harbenigedd a'u cyfraniad at blant, teuluoedd a chymunedau. Datblygu a lansio ymgyrch gydlynol sy'n codi eu proffil, gan ddefnyddio straeon a arweinir gan warchodwyr plant, astudiaethau achos, adnoddau a gynhyrchwyd ar y cyd a chyfleoedd cyfryngau. Cynnwys gweithgareddau sy'n gysylltiedig â dathlu 50 mlynedd o Coram. Defnyddio fforwm gwarchodwyr plant Cymru i lywio ein blaenoriaethau, safbwyntiau polisi a chyfathrebu Cynhyrchu a rhannu crynodeb cydnabyddiaeth broffesiynol ar gyfer gwneuthurwyr polisi a phartneriaid	Adolygu cyrhaeddiad yr ymgyrch ac adborth, a mireinio negeseuon dwyieithog i fynd i'r afael â bylchau mewn dealltwriaeth o rolau gwarchodwyr plant proffesiynol. Ehangu'r ymgyrch drwy ddulliau cyfathrebu targedig partneriaid a'r cyfryngau, gan arddangos ystod ehangach o straeon a arweinir gan warchodwyr plant ac arbenigedd proffesiynol. Cynnull y Fforwm Gwarchodwyr Plant bob chwarter a rhannu gyda phartneriaid sut mae'r cyfraniadau wedi llywio ein blaenoriaethau a'n sefyllfa polisi. Diweddaru a rhannu crynodebau cydnabyddiaeth broffesiynol gan ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd	Gwerthuso'r rhaglen codi proffil tair blynedd, adrodd ar gyrhaeddiad, adborth a thystiolaeth o newidiadau i gydnabod lle bo ar gael. Ymgorffori negeseuon dwyieithog effeithiol a straeon a arweinir gan warchodwyr plant yn ein gohebiaeth barhaus, a chyhoeddi casgliad ohonynt i arddangos cyfraniad proffesiynol gwarchodwyr plant. Cyhoeddi crynodebau cydnabyddiaeth broffesiynol wedi'u diweddaru sy'n nodi'r cynnydd, y rhwystrau sy'n weddill ac argymhellion ar gyfer gwneuthurwyr polisi a phartneriaid y blynyddoedd cynnar. Cynnull adolygiad dan arweiniad gwarchodwyr plant gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a

Ymrwymiad strategol	Camau allweddol		
	Blwyddyn 1 Tach 26-Maw 28	**Blwyddyn 2** Ebr 28-Maw 29	**Blwyddyn 3** Ebr 29-Maw 30
	gofal plant a'r blynyddoedd cynnar, gan nodi rôl gwarchodwyr plant ac argymhellion ymarferol i'w cydnabod a'u cynnwys. Creu cyfleoedd i warchodwyr plant siarad yn uniongyrchol â'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau drwy grynodebau, digwyddiadau ac atebion i ymgyngoriadau wedi'u cefnogi gan Coram PACEY Cymru. Pennu cwmpas a chomisiynu ymchwil sy'n ymwneud â gwarchodwyr plant yn seiliedig ar angen y sector, gan rannu'r argymhellion. Lansio Siarter Gwarchod Plant i Gymru, gan annog pobl i lofnodi'r siarter, monitro nifer y bobl sy'n ei llofnodi a'r ymateb iddi.	drwy weithgarwch ymgysylltu ac ymgyrchoedd gwarchodwyr plant. Cefnogi gwarchodwyr plant i gyfrannu'n uniongyrchol at drafodaethau polisi cenedlaethol a digwyddiadau'r sector, a chofnodi'r materion sy'n cael eu codi a'r ymatebion sy'n dod i law. Adolygu a chyhoeddi cynnydd ar argymhellion o ymchwil a gomisiynwyd. Parhau i annog pobl i lofnodi'r Siarter Gwarchod Plant a monitro nifer y bobl sy'n ei llofnodi ynghyd â'r ymateb i'r Siarter.	phartneriaid i rannu dysgu a llywio ein blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod cyflawni nesaf. Pennu cwmpas anghenion ymchwil pellach yn seiliedig ar gynnydd ar argymhellion ac unrhyw fylchau a nodir. Gwerthuso nifer y bobl sy'n llofnodi'r Siarter Gwarchod Plant i Gymru a chyhoeddi adroddiad ar ei heffaith.
3.2 Creu llwybrau ar gyfer twf a datblygiad Darparu a dylanwadu ar gyfleoedd ar gyfer dysgu proffesiynol, arweinyddiaeth,	Mapio dysgu, arweinyddiaeth a dyheadau dilyniant gwarchodwyr plant. Adolygu cyfleoedd a rhwystrau presennol gyda darparwyr	Cynnig cyfleoedd i warchodwyr plant arwain sesiynau a rhannu arbenigedd. Parhau i weithio gyda darparwyr hyfforddiant, Medr a Llywodraeth	Gwerthuso llwybrau datblygu gyda chyfranogwyr. Ymgorffori dulliau effeithiol yn ein cynnig dysgu proffesiynol.

Ymrwymiad strategol	Camau allweddol		
	Blwyddyn 1 Tach 26-Maw 28	**Blwyddyn 2** Ebr 28-Maw 29	**Blwyddyn 3** Ebr 29-Maw 30
datblygu busnes a dilyniant, gan alluogi gwarchodwyr plant i feithrin eu hyder, eu dyheadau a'u harbenigedd.	hyfforddiant, Medr a Llywodraeth Cymru gan gynnwys cyllid dan raglen brentisiaeth. Gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i ddylunio llwybrau datblygiad proffesiynol dwyieithog ar gyfer gwarchodwyr plant a chynorthwywyr. Sicrhau bod gwybodaeth Busnes Cymru a'r cynnig mewn perthynas â gwarchodwyr plant sy'n dechrau busnes a chynaliadwyedd yn gyfredol ac yn addas at y diben a hyrwyddo adnoddau a chymorth i'r sector. Cefnogi gwarchodwyr plant i dyfu'r defnydd o offer ac adnoddau hunanfyfyrio. Profi mentora a chynllunio datblygu o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Gweler 3.5 hefyd ynghylch y rhaglen mentora.	Cymru ar argymhellion mynediad ymarferol. Olrhain cyfranogiad, cyfraddau cwblhau a datblygiad a hunan-adroddir.	Rhannu cynnydd ac argymhellion o ran y rhwystrau sy'n weddill gyda phartneriaid. Pennu cost dewisiadau ar gyfer dysgu parhaus ac arweinyddiaeth gwarchodwyr plant.
3.3 Meithrin hyder a gallu	Defnyddio'r Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddiant ac arolwg	Cyflwyno cymorth â ffocws (yn amodol ar gyllid) sy'n ymateb i	Gan ddefnyddio Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddiant ac arolwg

Ymrwymiad strategol	Camau allweddol		
	Blwyddyn 1 Tach 26-Maw 28	**Blwyddyn 2** Ebr 28-Maw 29	**Blwyddyn 3** Ebr 29-Maw 30
Rhoi'r wybodaeth, y sgiliau, yr adnoddau a'r rhwydweithiau sydd eu hangen ar warchodwyr plant er mwyn darparu gwasanaethau gwarchod plant cynhwysol, ymatebol ac o ansawdd uchel.	aelodau i sefydlu llinell sylfaen hyder ac anghenion cymorth gwarchodwyr plant. Cefnogi gwasanaethau i ddeall gofynion rheoliadol drwy wahanol gyfryngau, gan gynnwys cyfathrebu, hyfforddiant a chymorth wedi'i deilwra. Adolygu a datblygu dysgu dwyieithog wedi'i deilwra ar ymarfer cynhwysol ac ymatebol. Profi sesiynau cymorth ymarferol a chasglu adborth gan gyfranogwyr. Pennu cwmpas y grantiau sydd ar gael i warchodwyr plant cofrestredig ar lefel leol a chenedlaethol. Nodi bylchau lle mae angen cymorth pellach a chwilio am gyfleoedd cyllido.	fylchau a nodir mewn gwybodaeth a hyder. Hwyluso trafodaeth rhwng cyfoedion a mynediad at gyfraniadau arbenigol drwy'r Fforwm Gwarchodwyr Plant a'r cynllun Mentora. Adolygu a chynnig offer ar gyfer myfyrio a chynllunio datblygiad ymarferol. Adolygu'r gwasanaethau cymorth a gyflwynir i sicrhau bod y rhain yn cefnogi gwarchodwyr plant i ddeall gofynion rheoliadol. Adolygu adborth o ran hyder ac enghreifftiau o'r dysgu a gymhwyswyd. Adolygu gwybodaeth sydd wedi'i choladu am y grantiau sydd ar gael ar hyn o bryd i warchodwyr plant cofrestredig ar lefel leol a chenedlaethol a pharhau i geisio cyllid i gefnogi'r bylchau.	aelodau, ailadrodd cwestiynau hyder ac asesu newidiadau ymhlith gwarchodwyr plant sy'n cymryd rhan. Gwerthuso pa mor ddefnyddiol a hygyrch yw'r cymorth ymarferol. Diweddaru adnoddau ac ymgorffori dulliau gweithredu effeithiol yn ein cynnig. Cyhoeddi'r dysgu a'r blaenoriaethau gallu ar gyfer y cyfnod nesaf. Adolygu gwybodaeth sydd wedi'i choladu am y grantiau sydd ar gael ar hyn o bryd i warchodwyr plant cofrestredig ar lefel leol a chenedlaethol a pharhau i geisio cyllid i gefnogi'r bylchau.

Ymrwymiad strategol	Camau allweddol		
	Blwyddyn 1 Tach 26-Maw 28	**Blwyddyn 2** Ebr 28-Maw 29	**Blwyddyn 3** Ebr 29-Maw 30
3.4 Dylanwadu ar gyfleoedd a chyllid teg Gweithio gyda'r llywodraeth a phartneriaid i gael gwared ar rwystrau a sicrhau bod gan warchodwyr plant fynediad teg at raglenni a chyfleoedd a ariennir sy'n cefnogi busnesau cynaliadwy.	Casglu tystiolaeth ar fynediad i gyllid, trefniadau talu a beichiau gweinyddol. Mapio rhwystrau i gyfranogiad gwarchodwyr plant mewn rhaglenni a ariennir. Datblygu argymhellion ar gyfer mynediad teg a chymesur. Parhau i lobïo dros gynnwys gwarchodwyr plant ym mhob rhaglen gofal plant ac addysg y blynyddoedd cynnar a ariennir er mwyn cefnogi cynaliadwyedd gwarchodwyr plant. Cyflwyno tystiolaeth i'r llywodraeth a phartneriaid comisiynu a chofnodi ymatebion.	Diweddaru tystiolaeth gyllido drwy adborth gwarchodwyr plant ac astudiaethau achos. Cyflwyno cynigion ymarferol ar fynediad, gweinyddu a phrosesau talu. Darparu canllawiau i helpu gwarchodwyr plant i ddeall a chodi pryderon am gyllid. Coladu gwybodaeth am gynnwys gwarchodwyr plant ym mhob rhaglen gofal plant ac addysg y blynyddoedd cynnar a ariennir gan ddarparu astudiaethau achos ynghylch cynaliadwyedd gwarchodwyr plant i arddangos arfer da ac angen.	Adolygu'r cynnydd yn erbyn argymhellion ariannu teg a chyhoeddi rhwystrau sydd heb eu datrys. Asesu ein cyfraniad at newidiadau a ddogfennwyd lle mae tystiolaeth yn caniatáu. Adnewyddu canllawiau busnes ac ariannu gan ddefnyddio adborth gan warchodwyr plant. Cyhoeddi cynigion y cyfnod nesaf ar gyfer ariannu cynaliadwy a chyfleoedd cyfartal. Adolygu'r gwaith o goladu gwybodaeth am gynnwys gwarchodwyr plant ym mhob rhaglen gofal plant ac addysg y blynyddoedd cynnar a ariennir gan ddarparu astudiaethau achos o gynaliadwyedd gwarchodwyr plant i arddangos arfer da ac angen.
3.5 Cysylltu a rhannu arbenigedd	Mapio rhwydweithiau cyfoedion presennol a bylchau mewn cyfleoedd i gysylltu.	Sicrhau cyllid i weithredu cynllun mentora ar gyfer gwarchodwyr plant yng Nghymru.	Gwerthuso'r cynllun mentora gyda'r cyfranogwyr.

Ymrwymiad strategol	Camau allweddol		
	Blwyddyn 1 Tach 26-Maw 28	**Blwyddyn 2** Ebr 28-Maw 29	**Blwyddyn 3** Ebr 29-Maw 30
Creu cyfleoedd i warchodwyr plant gysylltu, cydweithio, arloesi a rhannu eu gwybodaeth ar draws rhwydweithiau lleol a'r sector blynyddoedd cynnar a gofal plant ehangach.	Gofyn i warchodwyr plant sut maen nhw am rannu eu harbenigedd a chael gafael ar arbenigedd. Tyfu cyfnewidiadau dysgu dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) ar-lein ac yn lleol. Pennu cwmpas a datblygu cynllun mentora ar gyfer gwarchodwyr plant yng Nghymru. Yn amodol ar gyllid. Ymgymryd ag arolwg dros y ffôn gyda gwarchodwyr plant sydd wedi'u datgofrestru a'r rhai sydd wedi atal eu cofrestriad dros dro yn wirfoddol a choladu adroddiad blynyddol ar dueddiadau a heriau.	Cynnal Fforymau Gwarchodwyr Plant rheolaidd i gefnogi cyfnewid gwybodaeth ymhlith cyfoedion. Cefnogi gwarchodwyr plant i hwyluso trafodaethau a chyflwyno enghreifftiau o arfer. Cysylltu themâu o rwydweithiau lleol â dysgu'r sector yn genedlaethol. Cofnodi cyfranogiad, dysgu ymarferol a chyfleoedd i gydweithio. Ymgymryd ag arolwg dros y ffôn gyda gwarchodwyr plant sydd wedi'u datgofrestru a'r rhai sydd wedi atal eu cofrestriad dros dro yn wirfoddol a choladu adroddiad blynyddol ar dueddiadau a heriau.	Pennu cost opsiynau ar gyfer parhau i gynnig cyfleoedd mentora. Gwerthuso cyrhaeddiad a pha mor ddefnyddiol yw cyfleoedd dysgu gan gyfoedion. Cyhoeddi enghreifftiau y gellir eu hailddefnyddio a'r dysgu a rannwyd gan warchodwyr plant. Defnyddio adborth gan y rhwydwaith i lywio'r rhaglen gymorth broffesiynol nesaf. Ymgymryd ag arolwg dros y ffôn gyda gwarchodwyr plant sydd wedi'u datgofrestru a'r rhai sydd wedi atal eu cofrestriad dros dro yn wirfoddol a choladu adroddiad blynyddol ar dueddiadau a heriau.

4. Nod: Cymunedau

Mae cymunedau'n gwerthfawrogi gwarchodwyr plant ac yn ymatebol i anghenion lleol. Maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd, trwy bartneriaethau cryf, fel bod plant a theuluoedd yn elwa o gefnogaeth leol gysylltiedig a chynhwysol.

Ymrwymiad strategol	**Camau allweddol**		
	Blwyddyn 1 Tach 26-Maw 28	**Blwyddyn 2** Ebr 28-Maw 29	**Blwyddyn 3** Ebr 29-Maw 30
4.1 Codi proffil gwarchodwyr plant yn lleol Hyrwyddo gwarchodwyr plant fel rhan hanfodol o ddarpariaeth gofal plant a blynyddoedd cynnar lleol, gan dynnu sylw at eu cyfraniad at blant, teuluoedd a bywyd cymunedol.	Mapio cynulleidfaoedd a sianeli lleol i hyrwyddo cyfraniadau gwarchodwyr plant. Adolygu'r pecyn cyfathrebu dwyieithog lleol sy'n gysylltiedig â negeseuon cenedlaethol. Casglu straeon a arweinir gan warchodwyr plant sy'n arddangos gwerth cymunedol. Cynnig crynodebau a deunyddiau i awdurdodau lleol a phartneriaid cymunedol.	Cefnogi ymgyrch hyrwyddo sydd wedi'i theilwra'n lleol gan ddefnyddio'r pecyn cyfathrebu. Rhannu straeon gyda'r cyfryngau lleol a rhwydweithiau partner. Cynnig cymorth ymarferol i warchodwyr plant i gyfleu eu cyfraniad proffesiynol. Adolygu cyrhaeddiad lleol ac adborth a mynd i'r afael â bylchau yn ein dull gweithredu.	Gwerthuso ymgyrchoedd hyrwyddo lleol a chyhoeddi enghreifftiau o ddulliau gweithredu effeithiol. Adnewyddu'r pecyn dwyieithog gan ddefnyddio adborth gan warchodwyr plant a phartneriaid. Ymgorffori straeon lleol yn ein gohebiaeth barhaus. Nodi cynulleidfaoedd â blaenoriaeth a chyfleoedd i godi proffil yn barhaus.
4.2 Meithrin partneriaethau lleol cryfach Cefnogi cysylltiad gwarchodwyr plant ag awdurdodau lleol, ysgolion, gwasanaethau iechyd a	Mapio perthnasoedd gydag awdurdodau lleol, ysgolion a gwasanaethau cymorth teuluol. Datblygu cynnig partneriaeth clir a llwybrau cysylltiadau.	Cynnull cynlluniau peilot partneriaeth lleol a gytunwyd lle mae adnoddau a phartneriaid ar gael. Cefnogi cyfathrebu clir a chyfeirio rhwng gwasanaethau sy'n cymryd rhan.	Gwerthuso cynlluniau peilot partneriaeth a chyhoeddi'r dysgu ymarferol. Gwerthuso'r dull 'Cynnig Craidd' mewn perthynas â chymorth strategol a rhannu'r canfyddiadau.

Ymrwymiad strategol	Camau allweddol		
	Blwyddyn 1 Tach 26-Maw 28	**Blwyddyn 2** Ebr 28-Maw 29	**Blwyddyn 3** Ebr 29-Maw 30
chymorth i deuluoedd a sefydliadau cymunedol i greu cymorth mwy cydgysylltiedig i blant a theuluoedd.	Hyrwyddo a chyflwyno 'Cynnig Craidd' i awdurdodau lleol mewn perthynas â chymorth strategol a chofnodi a rhannu'r niferoedd sy'n cofrestru ar gyfer y Cynnig. Datblygu perthnasoedd agosach ag Ymwelwyr Iechyd yn benodol i helpu i godi proffil gwarchodwyr plant. Ystyried ystod o ddulliau datblygu cysylltiadau i hyrwyddo gwarchod plant fel opsiwn gyrfa a dewis gofal plant mewn cymunedau lleol gan gynnwys grwpiau ti a fi a sesiynau llyfrgelloedd. Gwahodd partneriaid a gwarchodwyr plant i nodi blaenoriaethau cydweithio ymarferol. Pennu cwmpas cynlluniau peilot yn seiliedig ar le a chadarnhau dibyniaethau o ran adnoddau a phartneriaid.	Adolygu'r dull 'Cynnig Craidd' mewn perthynas â chymorth strategol. Parhau i gyflawni, cofnodi a rhannu data sy'n ymwneud â manteisio ar y Cynnig. Adolygu a pharhau i gefnogi cysylltiadau i hyrwyddo gwarchod plant fel opsiwn gyrfa a dewis gofal plant mewn cymunedau lleol gan gynnwys grwpiau ti a fi a sesiynau llyfrgelloedd. Dogfennu rolau, cyfraniadau a gytunwyd a materion sydd angen eu huwchgyfeirio. Casglu adborth gan warchodwyr plant a phartneriaid ar gydweithredu.	Gwerthuso effaith y dull gweithredu i gefnogi cysylltiadau i hyrwyddo gwarchod plant fel opsiwn gyrfa a dewis gofal plant mewn cymunedau lleol gan gynnwys grwpiau ti a fi a sesiynau llyfrgelloedd. Cynhyrchu canllaw y gellir ei ailddefnyddio ar gynnwys gwarchodwyr plant mewn partneriaethau lleol. Cynnig modelau effeithiol i feysydd eraill heb gymryd yn ganiatáol y byddant yn cael eu mabwysiadu. Cytuno ar gyfraniadau'r cyfnod nesaf a nodi'r ymrwymiadau partner sydd eu hangen o hyd.

Ymrwymiad strategol	Camau allweddol		
	Blwyddyn 1 Tach 26-Maw 28	**Blwyddyn 2** Ebr 28-Maw 29	**Blwyddyn 3** Ebr 29-Maw 30
4.3 Cynnwys gwarchodwyr plant mewn penderfyniadau lleol Creu cyfleoedd i warchodwyr plant ddylanwadu ar gynllunio, comisiynu, ariannu a datblygu gwasanaethau, fel bod penderfyniadau'n adlewyrchu realiti busnesau gwarchod plant.	Mapio prosesau a llwybrau comisiynu lleol ar gyfer mewnbwn sy'n ymwneud â gwarchodwyr plant. Cefnogi gwarchodwyr plant sy'n wynebu heriau lleol. Er enghraifft mewn perthynas â chynllunio, gwastraff masnach, cyfamodau a chaniatâd landlordiaid drwy rannu safbwyntiau polisi, canllawiau a thynnu sylw'r llywodraeth ac awdurdodau lleol at faterion a thueddiadau. Casglu tystiolaeth ar rwystrau i gyfranogiad a gofynion lleol anghyson. Datblygu crynodebau a thempledi ymateb i ymgyngoriadau dwyieithog. Cynnig argymhellion awdurdodau lleol ar gyfer cynnwys gwarchodwyr plant mewn modd ystyrlon.	Cefnogi gwarchodwyr plant i gyfrannu at gyfleoedd ymgynghori lleol. Cyflwyno tystiolaeth ar gomisiynu, cyllido a rhwystrau busnes ymarferol. Cefnogi gwarchodwyr plant sy'n wynebu heriau lleol. Er enghraifft mewn perthynas â chynllunio, gwastraff masnach, cyfamodau a chaniatâd landlordiaid drwy rannu safbwyntiau polisi, canllawiau a thynnu sylw'r llywodraeth ac awdurdodau lleol at faterion a thueddiadau. Cynnull trafodaethau ar ganllawiau cyffredin a llwybrau uwchgyfeirio ar gyfer gofynion lleol. Olrhain argymhellion, cyfleoedd cyfranogi a'r ymatebion a dderbynnir.	Adolygu profiadau gwarchodwyr plant o gynhwysiant lleol a'r rhwystrau sy'n weddill. Cefnogi gwarchodwyr plant sy'n wynebu heriau lleol. Er enghraifft mewn perthynas â chynllunio, gwastraff masnach, cyfamodau a chaniatâd landlordiaid drwy rannu safbwyntiau polisi, canllawiau a thynnu sylw'r llywodraeth ac awdurdodau lleol at faterion a thueddiadau. Cyhoeddi canllawiau ymarferol ar gymryd rhan a phrosesau lleol cymesur. Cyflwyno argymhellion wedi'u diweddaru i awdurdodau a phartneriaid perthnasol. Pennu blaenoriaethau dylanwadu ar gyfer y cyfnod nesaf gan ddefnyddio ymatebion a dysgu a dderbynnir.
4.4 Adlewyrchu hunaniaeth, iaith ac amrywiaeth leol	Casglu barn gwarchodwyr plant a phartneriaid cymunedol ar arfer da a	Parhau i hyrwyddo hyfforddiant Addewid Cymraeg a Camau i	Cyhoeddi enghreifftiau y gellir eu haddasu sy'n adlewyrchu gwahanol gyd-destunau cymunedol.

Ymrwymiad strategol	Camau allweddol		
	Blwyddyn 1 Tach 26-Maw 28	**Blwyddyn 2** Ebr 28-Maw 29	**Blwyddyn 3** Ebr 29-Maw 30
Cefnogi gwarchodwyr plant i ddarparu gofal plant cynhwysol, sy'n ymatebol i ddiwylliant ac sy'n adlewyrchu'r cymunedau y maen nhw'n eu gwasanaethu, gan gynnwys gwarchodwyr plant sy'n siarad Cymraeg.	bylchau mewn adnoddau iaith a diwylliant lleol. Hyrwyddo'r Addewid Cymraeg a hyfforddiant Camau i warchodwyr plant, cefnogi cyflawniad a rhannu arfer da. Cyd-ddylunio deunyddiau dwyieithog ymarferol sy'n adlewyrchu lleoedd a phrofiadau lleol. Nodi cyfleoedd i brofi adnoddau gyda rhwydweithiau lleol sy'n fodlon.	warchodwyr plant a chefnogi cyflawniad a rhannu arfer da. Hwyluso cyfnewidiadau rhwng gwarchodwyr plant a chyfranwyr cymunedol. Rhannu enghreifftiau o ymarfer sy'n ymatebol yn ddiwylliannol. Defnyddio adborth i wella perthnasedd, hygyrchedd a chyfeirio.	Ymgorffori deunyddiau effeithiol a chyfeirio yn y gymuned yn ein cynnig cymorth. Nodi bylchau mewn adnoddau sy'n weddill a blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf.
4.5 Adeiladu cymunedau ymarfer cysylltiedig Galluogi gwarchodwyr plant i rannu gwybodaeth, cydweithio a chryfhau rhwydweithiau lleol, fel bod plant a theuluoedd yn elwa o gefnogaeth gymunedol fwy ymatebol.	Nodi rhwydweithio lleol sydd â diddordeb mewn datrys problemau ar y cyd fel cymuned. Cytuno ar themâu ymarferol gyda gwarchodwyr plant, fel pontio a chyfeirio teuluoedd. Treialu cymunedau ymarfer a hwyluswyd drwy'r Fforwm Gwarchodwyr Plant.	Hwyluso trafodaethau ymarfer rheolaidd gyda rhwydweithiau lleol sy'n cymryd rhan. Gwahodd gwasanaethau cymunedol perthnasol i gyfrannu at themâu y cytunwyd arnynt. Cefnogi gwarchodwyr plant i brofi syniadau cydweithredol a myfyrio ar y dysgu.	Cynnal adolygiad o gyfranogiad, enghreifftiau o ymarfer cydweithredol a pha mor ddefnyddiol ydyw. Cyhoeddi canllawiau ymarferol ar gynnal cymunedau ymarfer lleol. Cytuno ar drefniadau hwyluso parhaus o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

Ymrwymiad strategol	Camau allweddol		
	Blwyddyn 1 Tach 26-Maw 28	**Blwyddyn 2** Ebr 28-Maw 29	**Blwyddyn 3** Ebr 29-Maw 30
	Darparu offer syml i gofnodi dysgu a chytuno ar y camau nesaf.	Rhannu canfyddiadau ymarferol ar draws ardaloedd lleol a rhwydweithiau cyfoedion cenedlaethol.	Defnyddio dysgu lleol i lywio'r blaenoriaethau cymorth cymunedol nesaf.

Partneriaeth a chyflawni

Bydd Coram PACEY Cymru yn cynnal cyfrifoldeb cyffredinol am gydlynu ac adrodd ar y cynllun gwaith hwn. Bydd grŵp cyflawni traws-sefydliadol yn monitro cerrig milltir, tystiolaeth, cyllid, dibyniaethau a risg. Byddwn yn defnyddio ein Fforwm Gwarchodwyr Plant fel platfform i rannu gwaith a chynnydd ac i hyn ddarparu her a llywio penderfyniadau. Byddwn yn adrodd ar gynnydd o ran ein gwaith hyd yma drwy ohebiaeth, straeon newyddion a chyhoeddiadau a fydd yn cael eu rhannu ar ein gwefan a thrwy gyfathrebu targedig i aelodau a phartneriaid.

Byddwn yn sicrhau bod cynnydd yn cael ei rannu gyda phartneriaid strategol (gan gynnwys Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, Arolygiaeth Gofal Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru ac eraill) drwy ddiweddariadau a ddarperir mewn cyfarfodydd lleol a chenedlaethol perthnasol.,

Gwybodaeth bellach

Os hoffech chi drafod manylion y cynllun hwn ymhellach, cysylltwch â'n tîm drwy e-bostio cymru@corampacey.org.uk